


# Hyfforddiant ADYaCh (sesiwn 1 ) Ellen Jones ellenjones@gwynedd.llyw.cymru



# lechyd a diogelwch



# AGENDA

- **Cyflwyniadau**
- **Cyflwyno negeseuon pwysig o'r Cod ADY**
- **Cyflwyno dulliau plentyn-ganolog i lunio P1D**
- **Arbrofi a defnyddio'r dulliau plentyn-ganolog**
- **Unrhyw fater arall / Adborth**

# Cod Drafft ADY Rhagfyr 2018

- Prif negeseuon
- Beth fydd yn newid?
- Beth fydd effaith y Ddeddf ar y ffordd rydych chi'n gweithio?

# Terminoleg

Cyflwyno'r term  
'Anghenion Dysgu  
Ychwanegol'  
ADY



# Diffiniad o'r term ADY


- (1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- (2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd -
- (a) os yw'n cael anhawster **sylweddol** fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
  - (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- (3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud**

# Beth sydd yn/ ddim yn ADY?

- Efallai bod gan rai plant anabledd neu gyflwr meddygol nad yw'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn egluro beth yw ADY a'r hyn nad ydyw.
- Os oedd gan blentyn dan oedran ysgol gorfodol oediad arwyddocaol gyda'i leferydd, iaith a chyfathrebu, ac yr ystyriwyd (gan yr awdurdod lleol neu'r feithrinfa a gynhelir lle maent wedi cofrestru), bod angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, ac y penderfynwyd bod gan y plentyn ADY, byddai CDU yn cael ei roi yn ei le.
- Gall rhai anableddau effeithio ar fynediad plentyn i leoliad sy'n darparu gofal plant neu addysg feithrin, ond nad yw eu hanabledd yn effeithio ar eu dysgu, e.e. os ydynt angen defnyddio cadair olwyn neu angen bwydo PEG. Unwaith y rhoddir y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i alluogi i'r plentyn gael mynediad i'r lleoliad efallai na fyddai arnynt angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol o anghenrheid ac felly, ni fyddai ganddynt ADY

# Ystod oedran 0-25

- Un system ddeddfwriaethol i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY sy'n 0 i 25 oed.
- Mae hyn yn lle'r systemau ar wahân sy'n cefnogi'r blynyddoedd cynnar, ysgolion ac addysg ôl-orfodol ar hyn o bryd.





# Un Cynllun

Disodlir:

- Gweithredu yn y blynyddoedd cynnar (cynllun chwarae)
- Gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy gan gynlluniau datblygu unigol 'yn yr ysgol' (cynllun chwarae)
- Datganiad

Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol – Cynllun datblygu unigol (**CDU**) yn lle'r ystod o gynlluniau statudol ac anstatudol ar hyn o bryd ar gyfer plant




# Pwy fydd yn cyfrannu at y CDU?

Y plentyn

Rhieni / Gwarchodwyr

Gweithwyr allweddol o  
fewn lleoliad BC

Gwasanaethau allanol  
(lechyd / gofal)



# Deilliannau

- Bydd pwyslais y CDU ar ddarpariaeth sy'n sicrhau deilliannau go iawn.
- Bydd y dull o osod targedau yn newid. Bydd ein ffocws ar ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



# Lleihau anghydfod

Lle bo anghytundeb  
am Gynllun Datblygu  
Unigol neu'r  
ddarpariaeth sydd  
ynddo, mae'r pwyslais  
ar ystyried y mater a'i  
ddatrys ar y lefel fwyaf  
lleol bosib.



# Hawl i apelio

- Os na ellir datrys anghytundeb am gynnwys CDU neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar lefel leol, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc (a'u gofalwyr/rhieni yn achosion y rheiny sydd o dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys.



# System ddwyieithog

Rhaid i bob gwasanaeth  
ystyried p'un a oes ar  
ddisgybl angen darpariaeth  
ddysgu ychwanegol drwy  
gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid cymryd pob cam  
rhesymol i sicrhau y  
bodlonir anghenion disgybl  
drwy gyfrwng y Gymraeg  
os yw'n dymuno hynny.



# Negeseuon pwysig o'r Cod Drafft ADY, Rhagfyr 2018

- Nid yw'n nodi bod angen Rôl CADY o fewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag mae'r 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant – safon 4' (Diwallu Anghenion Unigol) yn nodi'r angen i gael person dynodedig yn y lleoliad
- Does dim rhaid cael caniatâd rhiant i gyfeirio plentyn i sylw'r Awdurdod.
- Rôl statudol AADY (Awdurdod) - Ffynhonnell wybodaeth.
- Rôl Statudol DECLO (Iechyd)

# Unrhyw Gwestiwn?





# Beth yw Cynhwysiad?



# Map Darpariaeth

Awdurdod / Iechyd  
CDU

Darpariaeth Ychwanegol  
Cyfrifoldeb yr ALI NEU

Ysgol  
CDU

Os yw plentyn wedi cofrestru gydag ysgol gall fod a CDU  
Ysgol ( yn ddibynnol ar ddwystr yr anghneion)

Lleoliad  
P1D

Darpariaeth  
Gyffredinol wedi'i dargedu

Lleoliad  
Cynlluniau

Darpariaeth  
gyffredinol

# Darpariaeth Gyffredinol

Mae **darpariaeth gyffredinol** yn cefnogi'r boblogaeth gyfan, h.y. ystafell / dosbarth cyfan neu leoliad gyfan ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd priodol i wneud cynnydd.

Mae'r lefel hon yn cynnwys datblygu'r gweithlu, mynediad at wybodaeth briodol, creu amgylcheddau sy'n gyfeillgar i gyfathrebu a dulliau ymyrraeth dosbarth/ystafell / lleoliad cyfan

# Beth yw addasiadau rhesymol?

## What are reasonable adjustments?

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu** un ffynhonnell gyfunol o gyfraith gwahaniaethu. Mae'n symleiddio'r gyfraith ac mae'n ehangu diogelwch rhag gwahaniaethu mewn rhai ardaloedd.

O ran lleoliadau BC, mae'n golygu na all y lleoliadau wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn disgyblion oherwydd eu **rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu crefydd neu gred neu eu cyfeiriadedd rhywiol.**

# **Darpariaeth gyffredinol wedi'i dargedu**

Mae **darpariaeth gyffredinol wedi'i dargedu** yn cefnogi'r boblogaeth sydd angen ei **(targedu)**, h.y. darparu yr un math o ymyraethau ac adnoddau a'r ddarpariaeth gyffredinol, ond efallai bod y dwyster neu'r amllder yn wahanol.

“elfen sylfaenol o addysgu o ansawdd – ond arferol” Pennod 7 CDADY 2018

# Darpariaeth Ychwanegol

*'7.3 (1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—*

*(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,*

*(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu*

*(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.*

*(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.*

*(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.*

# Proffil 1 dudalen

**Ymarfer sy'n  
canolbwyntio ar yr  
unigolyn**





Anglusteron Ddwy Ychwanegol  
Additional Learning Needs

## Proffil 's Profile



Hoffi ac edmygu am   
Like and appreciate about


1.

Beth sydd yn bwysig i  ?

What's important to  ?

Beth sydd yn bwysig er mwyn cefnogi  ?

How best to support  ?





## **Yn bwysig i..**

Mae'r hyn sy'n bwysig i unigolyn yn cynnwys yr hyn y mae pobl yn ei "ddweud" yn unig:

**- gyda'u geiriau**

**- gyda'u hymddygiad**

Pa fo geiriau ac ymddygiad yn gwrthddweud ei gilydd, sylwch ar yr ymddygiad

Dewis llawn dim cyfrifoldeb

Yn bwysig i



Dewis llawn: dim cyfrifoldeb

# Yn bwysig ar gyfer

Y ffordd orau i gefnogi ... bod yn iach a diogel

Yr hyn y mae angen i eraill ei wybod neu ei wneud ...

Mae'n cynnwys yn unig y pethau hynny y mae angen i ni eu hystyried o ran materion iechyd neu ddiogelwch



...nid o reidrwydd yn ystyried  
dewisiadau a dyheadau.



cydbwysedd

Yn bwysig i



Yn bwysig  
ar gyfer...



# Trafodaeth

- 1) Beth sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw i chi, beth sy'n gwneud bywyd yn bleserus ac yn llawn hwyl?

**Yn Bwysig i**

- 2) Beth ydych chi'n ei wybod y dylech ei wneud? Efallai oherwydd eich bod yn gwybod ei fod yn dda i chi? Beth mae eraill yn swmian arnoch i wneud mwy/llai ohono?

**Yn Bwysig ar gyfer**

Sut fuasech chi'n teimlo pe bai gennych ond y pethau y sonioch amdanynt yn 2 (yn bwysig ar gyfer) a dim yn (yn bwysig i)?

Sut fuasech chi'n teimlo pe bai gennych ond y pethau y sonioch amdanynt yn 1 (yn bwysig i) a ddim yn gorfod gwneud unrhyw un yn 2 (yn bwysig ar gyfer)?



# Trafodaeth

## Proffiliau un Dudalen enghreifftiol (pecyn adnoddau)

- 1) Babi
- 2) Plentyn 2 oed
- 3) Plentyn 3 oed
- 4) Oedolyn





# Casglu gwybodaeth

## Dyfalw a gofyn

Os nad yw'r plentyn yn siarad gallwch ofyn i berthnasau, ffrindiau ac aelodau staff sy'n eu hadnabod yn dda.

### 5 cwestiwn allweddol a'r offer meddwl:

1) Pwy yw'r **bobl bwysicaf i chi**? (pa mor aml ydych chi'n treulio amser efo nhw? Beth fyddwch yn ei wneud efo'ch gilydd?)

2) Beth wyt ti'n **ei wneud** fel arfer / bob amser? (gyda'r nos, yn ystod yr wythnos. Rhaglenni teledu, hobiau, diddordebau, y bobl y byddwch yn eu gweld, llefydd i fynd, bwyta, chwarae, synau dwi'n hoffi, patrwm cysgu)

3) Beth fydddech chi'n **methu gadael cartref** hebddo? (eiddo yr ydych chi'n ei drysori)




TAFLEN  
CASGLU  
GWYBODAETH

# Casglu gwybodaeth

4) Beth fydd eich diwrnod gorau a'ch diwrnod gwaethaf? (defnyddio'r offeryn meddwl – diwrnod da a diwrnod gwael)

Casglu gwybodaeth drwy:

- Arsylwadau
- Sgyrsiau



- Beth wyt ti'n ei wneud ar dy hoff ddiwrnod?
- Pa bryd wyt ti'n cael y mwyaf o hwyl?
- Beth sy'n gwneud i ti deimlo'n dda?
- Pwy sydd gyda ti am bob rhan o'r dydd?
- Ble wyt ti'n gwneud y weithgaredd yma?

# Defnyddio'r wybodaeth

## Diwrnod da

Rwy'n deffro ar amser a'n codi allan o'r gwely yn syth (gan geisio anwybyddu'r temtasiwn i aros yn fy ngwely ychydig hirach!)

Rwy'n cael cawod boeth a hir, a chael amser i eistedd i lawr a bwyta powlen o rawnfwyd a paned o dê.

Mae'n ddiwrnod sych, ac rwy'n medru cerdded i'r ysgol.

Rwy'n cyrraedd yr ysgol a'n cael amser i ddweud helo a chael sgwrs hefo rhai o'r staff cyn i'r disgyblion gyrraedd.

Mae pob un o'm gwersi wedi'u cynllunio ac mae pawb yn gwybod beth maent yn ei wneud.

Mae pob darn o offer yn cael eu rhoi'n ôl yn eu lle, ac mae unrhyw beth sydd angen ei ail lenwi, newid neu'i lungopio yn cael ei wneud.

Mae fy ngwersi'n mynd yn dda, ac mae'r disgyblion wedi mwynhau eu hamser gyda mi. Gwell fyth pan allaf weld bod rhai disgyblion yn benodol wedi deall y wers.

## Diwrnod Gwael?

Mae fy nghloc larwm yn methu, ac rwy'n deffro'n hwyr, brysio i gael fy hyn yn barod a dwi'm yn cael fy mrecwast nac fy mhaned o dê.

Rwy'n anghofio fy nyddiadur a'm llyfr nodiadau a'n teimlo'n anhrefnus.

Mae hi'n bwrw glaw, ac mae'n rhaid i mi ddal y bws.

Rwy'n cyrraedd yr ysgol ac yn cael fy mhledu â cwestiynau a materion yn syth a dim amser i setlo mewn i'r diwrnod.

Mae un o'r disgyblion yn cael diwrnod gwael, ac mae'n cael effaith ar y staff a'r disgyblion eraill.

Rwy'n methu cinio gan fy mod ar ei hôl hi hefo gwaith. Mae hyn yn achosi straen ac yn gwneud i mi deimlo'n llwglyd.

Pan mae rhywun yn gofyn i mi wneud tasgau ychwanegol ar funud olaf ac ar ddiwedd y diwrnod.

Pan mae'n rhaid i mi fynd a gwaith adref gyda mi er mwyn sicrhau fod pethau'n cael eu cwblhau.

*Beth fyddai angen newid i gael mwy o ddyddiau da a llai o ddyddiau gwael?*

Newid fy nghloc larwm

Codi'n fuan, gan roi amser i gael trefn ar bethau, bwyta brecwast a paratoi fy hyn ar gyfer y diwrnod.

Cael brecwast bob tro, ei baratoi'r noson cynt fel y gallaf ei fwyta ar y ffordd i'r gwaith pe bai angen.

Cyrraedd y gwaith yn gynnar, gyda gwên fawr.

Gwneud amser yn y diwrnod i siarad ag aelodau o staff eraill ac i ddatrys problemau'n sydyn fel nad ydynt yn datblygu'n problemau mawr.

# Casglu gwybodaeth

## 4) Log Dysgu

- Ffordd effeithiol i ganfod yr hyn ddysgwyd yn hytrach na'r hyn ddigwyddodd

**Pob ymddygiad yn ffordd o gyfathrebu**

# Log dysgu

DYDDIAD	BETH WNAETH Y PERSON?	PWY OEDD YNO?	BETH WNAETHOCH CHI DDYSGU AM YR HYN WEITHIODD YN DDA?	BETH WNAETHOCH CHI DDYSGU NAD OEDD YN GWEITHIO?
	Wedi rhannu tegan gyda'i ffrind	Miss Sian, Gwen a Sam (Plant y Cylch)	Defnyddio cerdyn llun – rhannu, amserydd tywod i ddangos tro hi wedyn Gwen (ffrind)	

# Casglu gwybodaeth

5) Beth fydd eich teulu a'ch ffrindiau'n ei ddweud eu bod yn ei garu a'i edmygu amdanoch?  
(cyfrannu at y rhan hoffi ac edmygu)

# Cadarnhaol

# Hoffi ac edmygu

## Pethau negyddol

Ysgrifennwch 3 pheth eithaf negyddol, er enghraifft:

Pengaled

Blêr

Taro

# Hoffi ac edmygu

Ar gyfer pob elfen negyddol, gofynnwch 3 chwestiwn:

1. Oes yna amgylchiadau lle mae'r elfen negyddol yn gadarnhaol?

Os felly, ychwanegwch at y **pethau a werthfawrogir**

2. Ydi'r elfen negyddol yn adlewyrchu rhywbeth sy'n bwysig i'r unigolyn?

Os felly, ychwanegwch at y rhestr **yn bwysig i**

3. Ydi'r elfen negyddol weithiau'n broblem? Os felly, beth mae angen i bobl eraill wybod neu wneud i gefnogi'r unigolyn pan fo'n elfen negyddol? Ychwanegwch at y rhestr **yn bwysig ar gyfer**



# Ysgrifennu Proffil un dudalen

## Awgrymiadau

Does dim un ffordd o ysgrifennu P1D

Iaith bob dydd a dim jargon

Gwybodaeth yn

- gywir
- clir
- hawdd ei ddarllen

Cadw'r holl ddatganiadau'n gadarnhaol

Digon o fanylion fel y gall rhywun ddefnyddio'r wybodaeth yn syth  
(Ile? efo pwy? Pryd? Pa mor aml?)



Rhan 'I gefnogi' - cyfarwyddiadol

*'Walk the walk'* – sicrhau eich bod yn gwneud defnydd mwyaf  
effeithiol o'r Proffil



shutterstock.com • 152521652

# Pa mor effeithiol yw'r proffil un dudalen?

Proffil un dudalen o ansawdd		
Wedi cynnwys 'Beth sy'n bwysig i ...		
Wedi cynnwys ' Beth sy'n bwysig ar gyfer.. cyfarwyddiadol		
Cydbwysedd rhwng 'bwysig i' a 'bwysig ar gyfer'		
Datganiadau cadarnhaol		
Digon o fanylion fel y gall rhywun ddefnyddio'r wybodaeth yn syth.		
Iaith bod dydd a dim jargon		
Gwybodaeth cywir, clir a hawdd ei ddarllen		

# Enghraifft

Yn bwysig i



Ar gyfer



# Enghraifft


Yn bwysig i

Ar gyfer

play



**Dewis da**



# Enghraifft

Yn bwysig i



?

Ar gyfer

Rhannu



play



cadw



# Enghraifft

Yn bwysig i




Ar gyfer




play



cadw



Amserlen weledol



hello



play



fruit snack



circle



bye-bye



cadw



# Cyfathrebu drwy ymddygiad



## Log Dysgu

Log Dysgu				
Dyddiad	Di' seurt y person?	Pwy'n helpu?	Di' seurt hysbysu'r ddiwedd, a'r hysbysu'r ddiwedd?	Di' seurt hysbysu'r ddiwedd, a'r hysbysu'r ddiwedd?
Pam? Pryd?				

**Ar gyfer**


**Yn bwysig i**




## Rhannu



**Dewis da**



Rwan



Wedyd



Beth sydd yn **bwysig** i

?

What's **important** to

?

I Love my family: Mum, Dad and younger sister E

I like music and singing - (at the moment I like Mr Tumble on youtube

I like playing with instruments- drums, keyboard every day

I like books and listening to specific stories for me to re- tell them (at the moment I like stories about farm animals)

I have favorite tv shows that I like to watch. A different one every week.

I like playing outside in the sand pit - filling and emptying different containers

I like routines and familiar surroundings - this makes me feel safe

I only drink milk and my favorite food is plain pasta.

At snack time in cylch I only like banana

I like to hug my teddy when I feel tired, anxious or sad (I carry my teddy everywhere)



Beth sydd yn bwysig er mwyn cefnogi

?

How best to support

?

-Routine is very important to me. I need to see it visually everyday - to include: book time and outside play

- I need structure and boundaries. The class rules should be up for me to see. Please remind me and reward me by being positive.

- I will head bang/throw myself on the floor and sometimes throw toys if too many demands are put on me- please ignore these behaviors and be consistent with me. Encourage me to sit down in the calm down corner with my teddy.

- I need encouragement to listen and follow the teacher's lead. Please use 'now and next', sand timer and lots of praise (next - sand pit)

- I need to develop my play skills. Provide me with daily opportunities to lead special play time, following 'May I Join You'

- Turn taking games will help me share my toys and let another child into my play- use the sand timer and lots of praise/encouragement.

- I need to further develop my language skills, comment on my play- don't ask too many questions.

- I use many learnt phrases when communicating and will need support to further develop my skills. Repeat words/ phrases to help me understand - use songs and Rhymes

- I need to hear simple language and instructions that are modeled clearly.

Hoffi ac edmygu am

Like and appreciate about

A big smile  
Always busy  
His singing voice  
Good visual memory  
How he has settled well into the classroom  
He remembers everybody's name  
Parents:  
Very loving and affectionate  
Good sense of humor  
Dotes on his sister  
Musically  
Enjoys being physical- long walks  
Has started to enjoy learning  
Learning to share

BETH SY'N BWYSIG (PARHAD)

In contact with SALT to update ICP  
Input from the specialist Communication team

# Unrhyw Gwestiwn?




# Sesiwn 2 – Mis Mawrth 2020

Cyflwyno'r Ddogfen Map darpariaeth

Cyflwyno prosesau'r Awdurdod

Stondinau i gyflwyno adnoddau a strategaethau amrywiol



Diolch yn fawr

